Cyf. LIV | Mai 1954 | Rhif 5

YR YMOFYNNYDD

Ylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

CYNNWYS

"Diwinyddiaeth yng Nghymru Heddiw"
gan
Y Parch. Ifor Parry, M.A., Aberdâr

YR YMOFYNNYDD

Pris 6ch. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15fed o'r mis

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. G. Evans, B.A.; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r talladau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol LIV. MAI 1954 Rhif 5

Rhagair y Golygydd

"DIWINYDDIAETH YNG NGHYMRU HEDDIW."

Fe wnaeth y Parch. Glyn Parry-Jones, Trefnydd Rhaglenni Cymru gymwynas fawr â ni wrth geisio gan y Parch. Ifor Parry draddodi tair sgwrs-brynhawn-Sul ar y testun uchod. Yn ôl ei arfer aeth Mr. Parry at ei waith o ddifri ac fe roes i ni grynodeb teilwng o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Yn ei sgwrs gyntaf y mae Mr. Parry yn pwysleisio mai "Nodwedd amlycaf y cyfnod presennol, o ran diwinyddiaeth, yw'r newid mawr a ddaeth arno", ac oherwydd hynny gwelwyd mai doeth fyddai cyhoeddi ei sgyrsiau ar fyrder cyn bod rhagor o newid yn dirymu ei ddadansoddiad ! Bendith ar y B B.C. am noddi'r ymchwil a'r ysgrifennu ond ar y gorau peth sy'n digwydd a darfod megis seren wib yw'r llais ar yr awyr. Dyna reswm arall paham y penderfynwyd eu cyhoeddi, unwaith eto, drwy gyfrwng mwy parhaol ein cylchgrawn. Rhoddwyd popeth arall o'r naill ochr am y tro a mentrwyd cyhoeddi'r sgyrsiau yn eu crynswth mewn un rhifyn fel bod cyfle i bawb, (o'r tu allan ac o'r tu mewn i'n mudiad arbennig ni) ei bwrcasu fel llyfryn. Teimlwn fod hyn yn rhan o briod waith Yr Ymofynnydd, onide, ofer ei deitl a'i draddodiad, a gallwn honni'n hyderus na chyhoeddwyd traethawd tecach na mwy diduedd erioed o fewn ei gloriau.

* * *

Rhoes nifer helaeth yr archebion a ddaeth i law eisoes awgrym i ni ddisgwyl rhagor o alw am y rhifyn hwn maes o law. Felly, yn groes i'n bwriad gwreiddiol fe argreffir mwy na'r nifer a archebwyd cyn Mai 6 a bydd y copiau yma i'w cael oddi wrth y Golygydd am yr un pris, chwe cheiniog (a'r cludiad).

Diwinyddiaeth yng Nghymru Heddiw

Gan y Parchedig R. Ifor Parry, M.A.,
(*Gweinidog yr Annibynwyr yn Siloa, Aberdâr*)

(*Cyhoeddir y sgyrsiau radio arbennig yma trwy ganiatâd caredig yr awdur a'r B.B.C.*

Gwaith dyrys a chymhleth yw ceisio dehongli meddwl cenedl ar faterion diwinyddol ;—yn enwedig cenedl nad oes ynddi ysgol arbennig o ddiwinyddiaeth, a chenedl sydd heb gyhoeddi unrhyw lyfr safonol ar ddiwinyddiaeth yn ei hiaith ei hun ers blynyddoedd bellach. A hwyrach mai dyna'r ffaith fwyaf trist yn y sefyllfa ddiwinyddol yng Nghymru heddiw. Gwyn fyd pe medrwn innau, (fel y gwnaeth yr Athro Vernon Lewis yn ei Ddarlith Radio), hongian fy sylwadau wrth enw dau neu dri o ddiwinyddion mawr, adnabyddus,—neu dri neu bedwar llyfr diwinyddol. Yn anffodus, nid ydynt i'w cael yng Nghymru heddiw ; a bydd yn rhaid i mi gyfeirio yn y sgyrsiau yma at nifer fawr o bamffledi a mân ysgrifau, heb obaith i fedru trafod yr un ohonynt yn gyflawn.

Gellir rhannu hanes diwinyddiaeth yng Nghymru yn fras fel hyn. Hanner olaf y ddeunawfed ganrif, cyfnod y *pregethu* diwinyddol, pryd y galwyd yr Hen Ymneilltuwyr yn ' Sentars Sychion '. Hanner cynta'r bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, cyfnod y *dadleuon* diwinyddol, dadleuon digon cecrus a di-chwaeth yn aml. Hanner olaf y ganrif, cyfnod euraid y Sectau, pan grisialodd y diddordeb diwinyddol mewn enwadaeth, nes bod gŵr fel O. M. Edwards wedi cwyno fod ' Cymru yn symud oddi wrth ddiwinyddiaeth '. Rhan gynta'r ganrif bresennol, y cyfnod beirniadol,—cyfnod y Ddiwinyddiaeth Newydd, a gysylltir yng Nghymru'n bennaf â David Adams, Griffith Jones, a Rhondda Williams. Yn olaf, y cyfnod presennol, wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gellir ei alw'n Gyfnod ailddarganfod y Sylfeini. Wrth gwrs, bras ac amhendant yw'r rhaniadau hyn. Ond fe wnant y tro fel rhyw fath o gerrig milltir, ar y ffordd y cerddodd diwinyddiaeth yng Nghymru hyd yn hyn.

Nodwedd amlycaf y cyfnod presennol, o ran diwinyddiaeth, yw'r newid mawr a ddaeth arno. Yn union wedi'r Rhyfel Byd Cynta', yr *un* oedd meddwl diwinyddol Cymru ag ydoedd ar ddechrau'r ganrif. Y mae'n wir fod adwaith oddi wrth Foderniaeth wedi ysgubo dros y Cyfandir yn sgîl y gyflafan ac yn sŵn argyfwng y Cenhedloedd. Ac y mae'n wir fod sibrydion o'r adwaith wedi cyrraedd Cymru. Ond at ei gilydd, optimistiaeth lawen y Foderniaeth Ryddfrydol oedd mewn bri yma. Gallai Dr. Gwilym Arthur Edwards a'r diweddar Brifathro John Morgan Jones gyhoeddi

traethawd ar Ddiwinyddiaeth yng Nghymru yn y flwyddyn mil-naw-dau-ddeg-pedwar, a dweud yn groyw mai'r dylanwad cryfaf ar ddiwinyddiaeth oedd ' y syniad o Ddatblygiad '. ' Ni saif pechod gwreiddiol mwy ' (meddent) ' ar ffordd addysg effeithiol '. Erbyn heddiw, y mae'r gosodiadau hyn yn swnio'n rhyfedd a dieithr. Nid ydym mor siwr heddiw o'n ' datblygiad ' ; ond yr ydym yn llawer mwy ymwybodol o'n pechod ! Mor fawr yw'r newid yn niwinyddiaeth Cymru mewn cyfnod mor fyr !

Prif ysgogydd y newid, fel y gwyddoch, yw'r mudiad a elwir yn Ddiwinyddiaeth Argyfwng, neu'r Draddodiadaeth Newydd, a gysylltir yn bennaf ag enw Karl Barth. Ac y mae'n dda i gofio mai yn y Gymraeg y cyhoeddwyd meddwl y diwinydd mawr hwn am y waith gyntaf ym Mhrydain. Anodd dyfalu faint yn hollol yw dylanwad y Draddodiadaeth Newydd ar ddiwinyddiaeth y wlad hon. Y mae'r arloeswyr cynnar wedi newid cryn dipyn arni yn nhreigl y blynyddoedd, fel y clywsom yn y Ddarlith Radio. Credaf yn bersonol fod ei dylanwad ' proffwydol ' wedi bod yn gryfach na'i chynseiliau diwinyddol ;—fod ei hôl yn amlycach ar bulpud Cymru nag ar ei llenyddiaeth ddiwinyddol hi. Ond y mae un ffaith yn amlwg i bawb :—y Draddodiadaeth Newydd sydd wedi penderfynu "maes llafur" y diwinyddion ers blynyddoedd bellach, yng Nghymru fel ymhob man arall—Y Duw Trosgynnol ; arallrwydd Datguddiad ; y Beibl fel Gair Duw ; ystyr Hanes ; natur yr Eglwys ;—dyna'r materion mawr heddiw ; a'r Draddodiadaeth Newydd sy'n gyfrifol am eu hadfer, yn briod faes i ddiwinyddiaeth. Caf gyfeirio, heddiw, at un yn unig o'r materion hyn, sef

(*a*) Y PWYSLAIS ARBENNIG AR DDIWINYDDIAETH FEIBLAIDD.

Wrth gwrs, nid peth newydd yng Nghymru yw'r pwys a roddir ar y Beibl. O ddyddiau John Roberts, yr almanaciwr o Gaergybi, a'r "Geir-lyfr Ysgrythurol" hyd at y Geiriadur Beiblaidd diweddaraf, y gyfrol sanctaidd yw rheol ffydd a buchedd pob Cristion. Eithr nid yr un safbwynt sydd gan Esboniadaeth Feiblaidd bob tro. Pwysai Thomas Charles a Mathetes i raddau helaeth ar awdurdod llythyren y Gair ; ond safbwynt Moderniaeth oedd gan Thomas Rees a'i gyd-olygwyr yn y flwyddyn mil-naw-dau-ddeg-chwech. Iddynt hwy, nid yr un peth yw Diwinyddiaeth Gristionogol a Diwinyddiaeth Feiblaidd. "Yn y Beibl" meddent—yr wyf yn dyfynnu o'r Rhagair i'r Geiriadur Beiblaidd—"y dywedir orau ac egluraf . . . hanes datguddiad Duw ohono'i Hun". ' Orau ac egluraf ', sylwer. Dyna'r Foderniaeth eangfrydig oedd yn barod i gydnabod posibilrwydd Datguddiad y tu allan i'r Ysgrythurau. Ond erbyn heddiw, gwynt arall sydd yn chwythu. Darllener "Sylfeini'r Ffydd", llyfr bychan a gyhoeddwyd rhyw ddeng mlynedd

yn ôl, o safbwynt y Draddodiadaeth Newydd. Dyma a ddywed hwnnw—"Diwinyddiaeth Gristionogol yw astudiaeth o'r Datguddiad *Yn y Beibl achlân* . . Ni all yr Efengyl fod yn rhan o unrhyw *broses cynyddol* o ddatguddiad". Y pwyslais yn awr yw mai diwinyddiaeth Feiblaidd yw'r *unig* ddiwinyddiaeth Gristionogol.

Dyma i chwi ffaith arall i ddangos gogwydd diwinyddiaeth Cymru. Wrth ochr y 'Geiriadur Beiblaidd', cododd bwriad a chynllun yn y tri-degau i gyhoeddi "Geiriadur Diwinyddol" ar yr un patrwm. Dewiswyd bwrdd golygyddol cryf: Y Parch. D. Francis Roberts (Cadeirydd), y prifathrawon John Morgan Jones a David Phillips, a'r athrawon J. Gwili Jenkins a J. Oliver Stephens. (Y mae'n drist meddwl mai'r olaf yn unig o'r meddyliau disglair hyn sy'n aros ar dir y byw). Ond daeth yr Ail Ryfel Byd i rwystro pob anturiaeth o'r fath, ac ni chlywsom ragor amdani hyd heddiw. Yn y cyfamser, y mae'r Draddodiadaeth Newydd wedi ennill tir, ac wedi gwthio'r cynllun gwreiddiol i'r cysgod. Yr awgrym diweddaraf, yn ôl a glywaf, yw cael "Geiriadur Diwinyddiaeth *Feiblaidd*"; nid Geiriadur Diwinyddol, sylwer, ond Geiriadur Diwinyddiaeth *Feiblaidd*. Y mae'r newid yn yr enw'n awgrymog, yn dangos ymhle y mae pwyslais diwinyddiaeth yng Nghymru heddiw.

Ond y mae un canlyniad anffodus wedi dilyn y diddordeb newydd hwn mewn diwinyddiaeth Feiblaidd, sef fod *Beirniadaeth* Feiblaidd yn cael ei hesgeuluso gennym. Y mae arwyddion diamwys fod Ffwndamentaliaeth ar gynnydd yng Nghymru. Y mae mudiad yr I.V.F. (yr Inter-Varsity Fellowship), sydd gymaint dan ddylanwad yr hen uniongrededdd, yn ennill y blaen ar Fudiad Cristionogol y Myfyrwyr, yn ein colegau. Ar wahân i'r Pabyddion, yr unig gorff crefyddol sy'n adeiladu capeli yng Nghymru heddiw ydyw'r Pentecostiaid. Y mae unrhyw arolwg ar y sefyllfa ddiwinyddol yn ein gwlad yn rhwym o gyfeirio at y duedd gyfoes mewn cylchoedd arbennig i ddychwelyd at yr hen Ffwndamentaliaeth Brotestannaidd, a'i sail yn nysgeidiaeth Calfin, a'i phwyslais ar awdurdod llythyren y Beibl. Mewn gair, y mae'r gwrthryfel yn erbyn Moderniaeth yn troi weithiau'n wrthryfel yn erbyn Beirniadaeth oleuedig ar Lên a Thestun y Beibl. Yn union wedi'r Rhyfel, bu cyfres o gyfarfodydd yng Nghaerdydd dan nawdd Cymdeithas Efrydiau'r Hen Destament (*The Society for Old Testament Studies*). Yn dilyn, cyhoeddwyd rhestr o lyfrau ar yr Hen Destament, a ysgrifenwyd yn ystod y rhyfel, yn Lloegr a Ffrainc a'r Almaen. Ymdriniodd yr Athro Bleddyn Jones-Roberts â'r llyfrau hyn mewn ysgrif yn *Y Traethodydd* dro n'ôl. Ac y mae'n arwyddocaol nad awgrymodd y Dr. Roberts gymaint ag un llyfr Cymraeg, a hynny'n sicr nid o ddiffyg gwybodaeth, nac o ddiffyg gofod! Aeth ef ei hun ati i gyflenwi peth o'r bwlch yn ei lyfr *Patrymau Llenyddol y Beibl*. Ond ar wahân i'r gyfrol fechan, gynhwysfawr hon, ag ambell ysgrif yma a thraw ar y Memrynau o'r Môr Marw (*the Dead Sea*

Scrolls), ychydig iawn a wyddom ni yng Nghymru am waith yr arbenigwyr diweddaraf ar y Testun Beiblaidd. Y mae Lloegr yn dal i gyhoeddi llyfrau ar berthynas Diwinyddiaeth Feiblaidd â Beirniadaeth Ffurf. Ond ychydig yw eu dylanwad yn ein gwlad ni. Llai fyth yw dylanwad gŵŷr fel R. H. Pfeiffer ac arbenigwyr eraill o'r Cyfandir.

Y mae un agwedd ar Ddiwinyddiaeth Feiblaidd a ddylai fod yn faes arbennig i ni yng Nghymru, sef YSTYR GEIRIAU.

'Ni gawsom rai defnynnau i lawr' mewn erthyglau o bryd i bryd. Ond ni ddaeth dim tebyg i'r "Theological Word Books" Saesneg, heb sôn am waith cwmpasog Friedrich a Kittel ar y Cyfandir. Y mae sôn am waith cyffelyb (nid mor uchel-geisiol, wrth gwrs) yn Gymraeg : a hynny ers tro bellach. Y mae'n arwydd o farweidd-dra diwinyddiaeth yng Nghymru fod gwaith mor bwysig mor hir yn ymddangos. Credaf fod hwn yn faes sy'n hawlio ymchwil ac astudiaeth fanwl gan ddiwinyddion sydd hefyd yn arbenigwyr mewn Ieitheg. Bu llawer o newid yng nghwrs amser yng nghynnwys y geiriau mawr diwinyddol :—yr Iawn ; yr Ymgnawdoliad a'r Ymwacâd ; y Ddelw Ddwyfol, ac yn y blaen. Yn sicr, nid geiriau mo'r rhain y gellir eu hesbonio yn ôl mympwy bersonol. Eithr nid yr un ystyr a roddir iddynt gan bawb o'n diwinyddion cyfoes. Y mae angen dygn am hyfforddiant ieithyddol ar ddiwinyddiaeth yng Nghymru heddiw. Onis ceir, ofer fydd pob ymdrafod rhwng gwahanol ysgolion o feddwl, os byddant yn defnyddio yr un termau, heb gytuno'n gyntaf ar eu hystyr priod.

Yr oedd gan awduron y traethawd ar Ddiwinyddiaeth yng Nghymru yn y flwyddyn mil-naw-dau-ddeg-pedwar ddau gŵyn. Yn gyntaf, ein bod o hyd, meddent, heb hanes manwl a chywir am gwrs diwinyddiaeth yng Nghymru ei hun. Diwallwyd yr angen hwn i fesur gan Gwili, yn ei lyfr *Hanfod Duw a Pherson Crist* (1931) ; —llyfr cynhwysfawr dros ben, ond bod ei deitl braidd yn gamarweiniol. Am yr ail gŵyn, erys hwn o hyd ; sef 'na chyfranasom (meddent) ddim bron at drysorau diwinyddol y byd ; ac na chododd eto Ysgol Gymreig o Ddiwinyddiaeth gwerth yr enw'. Tybed na ellid cyflenwi'r diffyg hwn ar linellau Beirniadaeth Destunol, gyda golwg arbennig ar y Beibl Cymraeg. Y mae i'r Beibl Cymraeg, fel y dengys y Dr. Tecwyn Evans yn ei lyfr diweddaraf, ei draddodiad ieithyddol cyfoethog ei hun, gwahanol i draddodiad ieithoedd eraill, ac yn fynych yn nes at ysbryd y gwreiddiol na ieithoedd eraill. Credaf fod modd gwneud cyfraniad neilltuol ar y llinellau hyn ; os medrwn fagu—a chynnal—arbenigwyr diwinyddol i ymddiddori mewn ieitheg ; a dwyn allan o'r Beibl Cymraeg drysorau newydd a hen. Y flwyddyn hon, yr ydym yn dathlu cychwyn y Gymdeithas Feiblaidd. A ydyw'n ormod gobeithio y bydd Beirniadaeth Destunol oleuedig, a Diwinyddiaeth Feiblaidd yng Nghymru, ar eu lles o'r herwydd.

(*b*) Y PWYSLAIS ARBENNIG AR ATHRONIAETH HANES.

Y mae llawer o sôn heddiw, ymhlith y diwinyddion, am arwyddocâd Hanes, ac am berthynas Amser â Thragwyddoldeb. Bu darllen pur helaeth yng Nghymru ar lyfr mawr Oscar Cullman *Christ and Time* ; ac y mae llyfrau Saesneg ar athroniaeth Hanes bron yn ddi-rifedi yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Ni chafwyd dim yn uniongyrchol ar y mater yn Gymraeg ers tro, ar wahân i gyfres o ysgrifau gan y Parchedig R. H. Evans, prifathro Coleg y Bala. Yn y tri-degau, fel y gwyddoch, Diweddafiaeth neu ' Eschatoleg ' oedd pob peth. Dyna lyfr y diweddar R .S. Rogers ar *Y Byd a Ddaw*, a *Darlith Davies* (1933) gan y Dr. Gwilym Edwards ar Deyrnas Dduw ag Apocalyptiaeth. Protest, i raddau, yn erbyn Eschatoleg eithafol ydoedd y *Ddarlith Davies* gan y Parchedig G. Wynne Griffith, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1946,—*Datblygiad a Datguddiad* ; yr ymgais fwyaf uchelgeisiol yn y Gymraeg, wedi *Bannau'r Ffydd* (Miall Edwards) i gael cyfosodiad newydd rhwng diwylliant a diwinyddiaeth, rhwng Amser a Thragwyddoldeb. Ymgais a safbwynt cyffelyb sydd gan y Parchedig W. T. Gruffydd yn *Crist a'r Meddwl Modern.* A barnu oddi wrth eu cylch-rediad, a'r cylchoedd niferus o weinidogion a fu'n eu trafod, dyma'r ddau lyfr Cymraeg mwyaf eu dylanwad ar ddiwinyddiaeth Cymru y blynyddoedd hyn. Nid yw'r Draddodiadaeth Newydd yn cael y ffordd yn hollol iddi ei hun !

Ond yr un yw asgwrn y gynnen o hyd. I ba raddau, (os o gwbl) y mae digwyddiadau a mudiadau Hanes yn rhan o Ddatguddiad Duw ? A ydyw'n gyfreithlon i godi corff o Ddiwinyddiaeth ar ffeithiau Hanes, hyd yn oed Hanes Beiblaidd ? A ellir, er enghraifft, ddidoli diwinyddiaeth yr Hen Destament oddi wrth yr hanesion a geir ynddo ? Y mae'r Draddodiadaeth Newydd wedi esgor yn ddiweddar ar blentyn anystywallt iawn, o'r enw Rudolf Bultmann. A chymwynas fawr i Ddiwinyddiaeth yng Nghymru oedd Darlith Radio yr Athro Vernon Lewis, a'i feirniadaeth ar y "stormy petrel" diwinyddol hwn :—yr ymgais i ddad-gysylltu (neu ddad-fythu) ffeithiau Cred oddi wrth eu hanes Beiblaidd, ac i chwilio am sail y Ffydd Gristionogol mewn profiadau dirfodol (existential). Fe gofiwch i'r Dr. J. R. Jones drafod yr un broblem yn ei ddarlith agoriadol yn Abertawe,—"Religion as the True Myth". Gwelir yr un duedd drachefn mewn ysgrifau sy'n trafod "Person Crist", ag yn sôn am Grist fel ' dylanwad ', fel ' Idea ', fel ' egwyddor weithiol ', ac yn y blaen. Eithr heb ymdeimlad o Hanes, heb ymwybod o'r berthynas rhwng ein hamser ni ag amser Duw, y mae Ffeithiau Cred yn mynd yn bethau cwbl amhersonol, a diwinyddiaeth yn ymollwng mewn cyfriniaeth ben-agored. Y peryglwedyn yw fod Diwinyddiaeth yn colli pob angerdd moesol, yr

angerdd moesol hwnnw a nodweddai ddiwinydd fel David Adams gynt. Y diffyg hwn, sydd i'w weld yn niwinyddiaeth Cymru ers rhai blynyddoedd bellach, sy'n gyfrifol am brotest moesolwr fel yr athro H. D. Lewis yn erbyn rhai o gyn-seiliau'r Draddodiadaeth Newydd. Amcan cwbl ymarferol sydd i lyfrau'r Athro Lewis, sef dyfnhau a chadarnhau'r bywyd crefyddol, yn arbennig yn ei oblygiadau cymdeithasol.

Yr ydym yma wyneb yn wyneb â phroblem ymarferol. Daw cwestiwn Hanes, a perthynas Amser â Thragwyddoldeb, a ni at berthynas Teyrnas Dduw â Theyrnasoedd y ddaear. Y mae'n dda gweld rhai o ddiwinyddion blaenllaw Cymru yn ymgodymu o ddifrif â'r broblem hon. Rhoes yr annwyl David Philips, y Bala, lawer o sylw yn ei flynyddoedd olaf i gysylltiad Crefydd â Moesoldeb, yn arbennig yn ei "Ysgrifau Athronyddol". Cawsom hefyd draethawd gan y Prif-athro Pennar Davies ar "Y Ddau Gleddyf", sef perthynas yr Eglwys â'r Wladwriaeth". Yr un oedd thema llyfr yr Athrawon H. D. Lewis a J. Alun Thomas yn *Y Wladwriaeth a'i Hawdurdod*, o safbwynt athroniaeth foesol. Bu cyfnod o ddyfynnu helaeth o lyfrau Dr. P. T. Forsyth yng Nghymru ; ond y mae'r argraff arnaf fod mwy o sôn heddiw am F. D. Maurice a'i Sosialaeth Gristionogol. Ac y mae'r llyfrau a'r tueddiadau hyn i gyd yn werthfawr ac yn amserol. Hyd nes y cafwyd hwynt, yr oedd Diwinyddiaeth yng Nghymru wedi ei didoli bron yn llwyr oddi wrth y mudiadau cymdeithasol a gwleidyddol ag economaidd sy'n ffurfio patrwm ein bywyd-bob-dydd. Mewn gair, yr oedd diwinyddiaeth Cymru (yn union ar ôl y Rhyfel) yn tueddu i ateb cwestiynau nad oedd neb yn eu gofyn !

Colled resynus yn y cyfwng hwn oedd tranc *Yr Efrydydd* :—yr unig gylchgrawn, o'r bron, a roddai farn gyfrifol ac ymarferol ar fywyd Cymru o safbwynt Cristionogol. Y mae'n galondid fod yr *Efrydydd* wedi ail-gychwyn ; a disgwyliwn y bydd yn parhau i bwysleisio oblygiadau cymdeithasol y Ffydd yng Nghymru.

Ond rhaid i mi droi at nodwedd arall, bwysig iawn mewn diwinyddiaeth heddiw : sef

(*c*) Y PWYSLAIS ARBENNIG AR NATUR YR EGLWYS.

Un o gyn-seiliau hanfodol y Draddodiadaeth Newydd yw mai astudiaeth o fewn i'r Eglwys, ac i ddibenion yr Eglwys, yw Diwinyddiaeth i fod. Nid gwyddor i'w dysgu i'r byd mohoni ; nid moddion i ennill paganiaid at y Gwaredwr ; nid set o reolau at iawn-drefn Cymdeithas ; ond, (yn ôl y Draddodiadaeth Newydd) cyfrwng adeiladaeth y saint yn eu cymdeithas â'i gilydd, a chyffes yr Eglwys i'w Harglwydd. Y mae pob dosbarth o ddiwinyddion yn nyled y pwyslais hwn, ac yn cydnabod mor anhepgor ydyw iawn-

ddiffinio Natur a Gwaith yr Eglwys. Ni ddëellir y mudiad Eciwmenaidd yn iawn heb sylweddoli hyn. Y mae'n wir fod ystyriaethau cyfundrefnol ag economaidd i *ryw* raddau yn deffro diddordeb yn hen gwestiwn ad-uno'r eglwysi ;—diffyg cyflenwad o weinidogion, yr angen i'r Eglwys gau ei rhengoedd yn wyneb paganiaeth ein cyfnod, ac yn y blaen. Eithr nid gwendidau ac anawsterau'r gwahanol sectau yw'r unig symbyliad. Y mae Eciwmeniaeth yn arwydd o fywiogrwydd Diwinyddiaeth, yn arbennig yn yr Alban ac ar y Cyfandir.

'Rwy'n ofni nad ydi Cymru wedi deffro eto i oblygiadau diwinyddol Natur yr Eglwys. Diddordeb cyfundrefnol neu hanesyddol yn bennaf yw diddordeb Cymru heddiw yn yr Eglwys. Am y diddordeb cyfundrefnol, darllener adroddiadau beichus pwyllgorau a chynadleddau pob enwad, neu drafodion y corff rhyfedd hwnnw—"Pwyllgor Cyd-ddealltwriaeth a Chyd-weithrediad". Am y diddordeb hanesyddol, gellir cyfeirio at Gymdeithasau Hanes y gwahanol sectau. Dyna nodweddion diddordeb Cymru heddiw yn yr Eglwys, diddordeb yn ei hanes ac yn ei chyfundrefn. Yr ydym yn bell, bell ar ôl mewn astudiaeth *ddiwinyddol* o *Natur* yr Eglwys. Er i'r *Genhinen* agor *forum* i wŷr o bob enwad i drafod rhagolygon ad-uno, ychydig o ymateb sydd wedi bod i her ddiwinyddol y pwnc. Gwneir hynny, i fesur canmoladwy, mewn llyfr bychan na chafodd y sylw a haeddai, sef *Ffyrdd a Ffydd*, cyfrol gyfansawdd ar ddaliadau diwinyddol saith enwad. (Golygydd—y Parchedig Abel Ffowcs Williams ; 1945)). Eithr nid oes gennym unrhyw waith safonol cyfoes yn y Gymraeg, yn ymwneud â phwyslais diwinyddiaeth heddiw ar Natur yr Eglwys.

Nid ydym, chwaith, yng Nghymru hyd yn hyn, wedi wynebu yn onest ac yn bwyllog gyda'n gilydd, broblem ddyrys y *Weinidogaeth* Gristionogol, ei natur a'i diben. Yn fyr, dyma'r sefyllfa :—Y mae diwinyddion yr Eglwys Esgobol yng Nghymru yn cydnabod fod y sawl a ordeiniwyd mewn eglwys ymneilltuol *yn* cyflawni gweinidogaeth "effeithiol". Dyna'r gair pwysig,—gweinidogaeth "*effeithiol*". Eithr nid yw hyn, meddir, yn rhan o weinidogaeth *hanfodol* yr Eglwys. Ffurf y Weinidogaeth hanfodol yw Esgobyddiaeth. Nid esgobyddiaeth fel ffurflywodraeth ddefnyddiol, nid esgobyddiaeth fel cyfundrefn drefniadol hwylus, eithr *hanfod* yr Eglwys ;—hanfod y gellir ei olrhain drwy olyniaeth apostolaidd ddi-dor i ddyddiau'r Testament Newydd. Hyn yn unig all sicrhau di-doredd (*continuity*) yr Eglwys Lân Gatholig drwy'r canrifoedd. Ateb yr eglwysi an-esgobol ydyw mai di-doredd mewn rhan ydyw hyn. '*Continuity*' holl gorff Crist sydd yn bwysig, nid di-doredd rhyw urdd ordeiniedig o'i fewn.

Eithr nid yw'r eglwysi an-esgobol chwaith yn cytuno â'i gilydd ar natur y Weinidogaeth. Ordeinio yn enw Crist yn yr eglwys unigol a wnaiff yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. (Yn wir, yr oedd

yr *Hen* Ymneilltuwyr yn credu, rai ohonynt, mai i'r gynulleidfa yn y fan a'i hordeiniodd ef, yn unig, yr oedd gweinidog *yn* weinidog, ac i neb arall !). Ond ordeinio i gorff Crist yng nghymdeithasfa ei Eglwys ydyw arfer y Methodistiaid. Fy mhwrpas yn awr yw nid datgan barn ond dadlennu sefyllfa. Ac y mae'r gwahaniaethau yn y sefyllfa, ac yn arferion y sectau, yn gorffwys ar wahaniaethau *diwinyddol* ar natur y Weinidogaeth,—gwahaniaethau na chlywir fawr amdanynt yng Nghymru heddiw.

Neu ystyriwch un o sagrafennau pwysicaf yr Eglwys, sef Ordinhad Swper yr Arglwydd. Pe digwyddai i'r hwn oedd i weinyddu'r Cymun Bendigaid gael ei daro ag anhwylder ar yr unfed-awr-arddeg, (colli ei lais, dyweder, cyn dechrau), a ddylid gohirio cymuno neu a ellid dewis un o blith y gynulleidfa i gymryd ei le? Yn awr, y mae'r gwahaniaeth a geid yn yr ymateb i sefyllfa cwbl bosibl fel yna, yn gorffwys ar wahaniaethau *diwinyddol* ar natur y Weinidogaeth a'r Sacramentau. Arwynebol, onid rhagrithiol yn wir, a fyddai unrhyw ad-uno heb ddeall ein gilydd ar y cwestiynau sylfaenol hyn.

Ofnaf, fy hun, fod rhagolygon ad-uno eglwysi Cymru yn dibynnu gormod ar ewyllys da, bonheddig, ar rhyw ddelfrydiaeth amwys y byddai Eglwys Unedig yn "*good thing*", yn hytrach nag ar feddwl yn ddiwinyddol ac yn ddisgybledig ar y mater. Meddai un ysgrif ar y pwnc—"Cyn belled ag y mae *diwinyddiaeth* yn y cwestiwn, nid *oes* wahaniaethau, i rwystro gweinidog o un eglwys rhag gwasanaethu mewn eglwys arall". Gofynnaf ddau gwestiwn : Yn gyntaf : ai arwydd o iechyd crefyddol yw sefyllfa o'r fath ? Yn ail : A ydyw'r gosodiad yn wir ? Onid yw'r gwahaniaethau sydd rhyngom *yn ddiwinyddol* yn y bôn, nid oes wahaniaethau,—dim ond ystyfnigrwydd a phenboethni. Ond cyn belled ag y mae cyd-ddeall diwinyddol ar natur yr Eglwys yn y cwestiwn, nid ydym ni yng Nghymru yma fawr iawn nes at ein gilydd na phan fu "S.R." a Lewis Edwards yn dadlau ar yr un pwnc. Nid diffyg cydymdeimlad na diffyg amynedd sy'n gyfrifol ; na diffyg yr hyn a eilw'r Parchedig Ffowcs Williams yn ' hiwmor i chwerthin ar ein pennau ein hunain ', er fod gwir angen hynny arnom. Diffyg cyfathrach ydyw. Yn ddaearyddol, yr ydym yn byw yn ddigon agos i'n gilydd fel gwahanol sectau crefyddol yng Nghymru. Ond ni cheir cyfathrach agos, fynych, rhwng meddyliau treiddgar pob enwad. A phan geir y gyfathrach hon i weithredu'n gyson, fe welwn na ellir dad-gysylltu Natur yr Eglwys oddi wrth Natur y Weinidogaeth a'r Sacramentau, nac ychwaith oddi wrth ddiwinyddiaeth Person Crist a'i Waith. Mewn gair, y mae cwestiwn ad-uno'r eglwysi ynghlwm wrth athrawiaeth Iachawdwriaeth ; a gorau i gyd po gyntaf i ddiwinyddiaeth yng Nghymru sylweddoli hynny.

CYFRYNGAU DIWINYDDIAETH

Wrth geisio trafod, mewn amser byr, holl gyfryngau ein diwinyddiaeth heddiw, yr holl foddion llenyddol a sefydliadol sy'n hyfforddi Cymru mewn diwinyddiaeth, teimlaf yn hynod o debyg i'r gŵr a welais gynt yn Ffair y Borth yn cerfio Gweddi'r Arglwydd ar gefn pisyn-tair ! Gwasgu darlun mawr i gynfas bychan fydd y gamp i minnau hefyd !

(*a*) EIN LLENYDDIAETH.

Dechreuwn gyda'n *Llenyddiaeth.* Nodais rai o'r llyfrau eisoes ; ond ychydig yw rhif y cyfrolau a gyhoeddir ar ddiwinyddiaeth yng Nghymru heddiw,—enghraifft arall o gyflwr adfydus y Wasg Gymreig yn gyffredinol. Y mae'r cylchgronnau, enwadol ac anenwadol, hwythau'n ymladd am eu heinioes, ac ynddynt hwy y ceir prif swm y cynnyrch diwinyddol. Cyfeiriais o'r blaen at *rai* o'r cyfraniadau pwysicaf, o'r *Traethodydd* ac o'r *Efrydiau Athronyddol*, ymhlith eraill. Braidd yn brin hyd yma yw'r cynnyrch diwinyddol yn yr *Efrydiau Catholig*, cylchgrawn blynyddol dan nawdd y Cylch Catholig Cymreig, ac a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1946. Eiddo'r Dr. J. Barrett Davies yw'r pwysicaf yma, ar Ddiwinyddiaeth a'r Offeren. Cyhoeddodd y Dr. Davies hefyd erthygl gref yn y rhifyn cyntaf o'r *Efrydiau Catholig*, ar y ddwy natur ym Mherson Crist, yng ngoleuni athrawiaeth Cyfatebiaeth Bodolaeth a sagrafennau'r Eglwys. Os myn neb wybod p'le saif Rhufain ar gwestiwn Cyfatebiaeth Bodolaeth (yr "analogia entis"), a hynny mewn Cymraeg cadarn, ni ddichon wneud dim yn well na darllen yr erthygl hon o eiddo'r Dr. Barrett Davies. Ef yn ddiau yw prif gynrychiolydd yr ysgol a elwir y "Thomistiaid Newydd", yng Nghymru heddiw.

O gofio addewid y Golygydd, mai cylchgrawn i geisio diogelu gwareiddiad Cristionogol yng Nghymru wedi'r Rhyfel oedd *Efrydiau* Catholig i fod, y mae lle i ddisgwyl rhagor eto ar y sefyllfa gyfoes yng Nghymru yng ngoleuni diwinyddiaeth Eglwys Rufain. Oblegid ymgais ydyw'r ddiwinyddiaeth honno i sicrhau Cyfosodiad (*synthesis*) undod ontologaidd rhwng pob agwedd ar fodolaeth. Y mae gan Eglwys Rufain, yng Nghymru fel ym mhob man arall, ei chyfosodiad o'r Canol Oesoedd, yn ôl patrwm Thomas Acwin, rhwng pob diwylliant a'i dogmau arbennig hi ei hun. Yn wir, dyna ydyw athrawiaeth Cyfatebiaeth Bodolaeth, sef bod ffurfiau ar fywyd dyn a chymdeithas yn cyfateb i fywyd Duw Ei Hun. Mewn gair, fod ffordd oddi wrth ddyn fel dyn at Dduw. Mewn adolygiad caredig rai blynyddoedd yn ôl, awgrymodd y Dr. Tudur Jones mai'r athrawiaeth hon am yr "analogia entis" a fyddai prif faes brwydr

diwinyddiaeth cyn bo hir. Cytunaf yn llwyr. Dyma'r pwnc mawr yn athroniaeth crefydd y bydd *raid* i ddiwinyddiaeth ymgodymu ag ef o'r newydd, sef a oes ffordd o gwbl oddi wrth ddyn fel dyn at Dduw. I Karl Barth, wrth gwrs, ' dyfais yr Anghrist ' ydoedd yr athrawiaeth fod unrhyw gyfatebiaeth bod rhwng dyn a Duw. Ond y syndod yw fod Barth, yntau, yn chweched gyfrol y *Dogmatik* yn cydnabod fod *pob* dyn, am ei *fod* yn ddyn, ' yng Nghrist '. Ymddengys hyn i mi yn beryglus o agos at yr athrawiaeth y mae ef ei hun yn ei gwrthwynebu !

Ond sôn yr oeddwn am ein llenyddiaeth ddiwinyddol. Ateb ydyw erthygl y Dr. Barrett Davies ar Gyfatebieath Bodolaeth i ysgrif o eiddo Mr. J. E. Daniel ar bwyslais diwinyddiaeth heddiw, 1942 ; ysgrif o safbwynt y Draddodiadaeth Newydd. Ond pe teimlasai Mr. Daniel fel ateb yn ôl, ym mhle y byddai'n cyhoeddi'r ateb, a bod yn sicr y gwelid ef gan ei wrthwynebydd ? Y mae Diwinyddiaeth yng Nghymru yn dioddef o ddiffyg man-cyfarfod priodol mewn cylchgrawn o'i heiddo hi ei hun. Y mae gan yr athronwyr faes i ymgodymu arno, a'r Dr. Aaron yn ganolwr ! Eithr nid oes i'r diwinyddion druain ond llety dros dro yng nghyfnodolion pobl eraill. Ond gwell, hwyrach, na chychwyn cylchgrawn arall eto, ar ei daith fyr-hoedlog yng Nghymru, a fyddai cyhoeddi ambell draethawd pwysig ar Ddiwinyddiaeth, a ennillodd radd M.A., ag sydd yn awr yn casglu llwch ar silffoedd y Brifysgol.

A ninnau'n trafod llenyddiaeth, dylid cyfeirio hefyd at yr Eisteddfod, lle ceir digon o destunau o hyd mewn barddoniaeth a rhyddiaith, yn ymwneud â Chrefydd a'i hanes,—yn arbennig â hanes diwinyddion o wledydd eraill ! Ond ni ddaeth cynnyrch diwinyddol gwreiddiol o'r cyfeiriad hwn ers amser hir. O'r Eisteddfod, gynt, y daeth traethiadau dylanwadol David Adams a Griffith Jones. Y mae ein llenorion a'n diwinyddion heddiw mewn dau wersyll ar wahân, a nemor o gyfathrach rhyngddynt. Gydag ychydig o eithriadau adnabyddus, ychydig o'n llenorion amlwg sydd yn ymddiddori o gwbl mewn Diwinyddiaeth. Byddai'n lles i'r ddwy ochr pe deuai ein llenorion a'n diwinyddion yn nes at ei gilydd.

Ni ellir gadael llenyddiaeth, chwaith, heb grybwyll yn fyr am yr hyn a elwir yn ' ddiwinyddiaeth y beirdd ' ; er fod llawer o'r cynnyrch barddonol yng Nghymru heddiw yn fwy o broblem mewn Patholeg nag mewn diwinyddiaeth. "Swydd briodol bardd ymhob oes", meddai Mr. Saunders Lewis, "ydyw canmol a mawrygu trefn pethau". Eithr canu i annhrefn cymdeithas a wna'r beirdd heddiw. "Swyddogaeth bardd yw diddanu", meddai'r Dr. T. H. Parry-Williams. Ond yn wir, yn wir, prin yw'r diddanwch a rydd barddoniaeth Cymru heddiw. Troes hyd yn oed ' Bardd yr Haf ' yn Fardd y Gaeaf, yn edrych ar fywyd fel tir hunlle a gwae. Y newid pwysicaf a ddaeth dros farddoniaeth Cymru yr ugain mlynedd

diwethaf, i'm tyb i, yw ei bod hi heddiw yn llawer mwy amhersonol na chynt. Digon trist oedd nodau'r gân yn y tri-degau ; ond, o leiaf, tristwch ac ansicrwydd personol ydoedd. Heddiw, cenir yn fwyaf arbennig i ddirywiad yr hil ddynol i gyd, i bechod cymdeithas gyfan. Dywed y beirniaid llenyddol wrthym fod ymdeimlad o bechod yn hanfodol i Lenyddiaeth, fel y dengys y clasuron. Ond yn y clasuron megis *Macbeth*, *Ffawst*, *Les Miserables*, cysylltir pechod â phersonau arbennig. Yng nghanu Cymru heddiw, pechod yr holl hil a ddadlennir, (megis yng nghân Harri Gwyn i'r ' Creadur ') —neu bechod Cymru ! Sosialwyr yw'n beirdd bron i gyd, yn brysur wrth y gwaith o ' genedlaetholi ' Pechod ! Dywedaf hyn er mwyn awgrymu nad oes ddiwinyddiaeth fel y cyfryw ym marddoniaeth Cymru heddiw ; er cymaint sôn y sydd am ei thueddiadau ' gwrth-Hegelaidd ', y beirniaid llenyddol yn gweld ' dylanwad Kierkegaard ' arni, ac yn y blaen. Y mae'n barddoniaeth yn rhy amhersonol i fod yn ddiwinyddol. Profiad crefyddol real a phersonol sy'n gwneud diwinydd o'r iawn ryw. Dychanu ar bynciau crefyddol a wna barddoniaeth Cymru heddiw, nid diwinydda.

(*b*) Y COLEGAU A'R BRIFYSGOL.

Ond y mae'n bryd i mi droi at agwedd arall. Beth am y MODDION SYDD GENNYM WRTH LAW HEDDIW I HYFFORDDI CYMRU MEWN DIWINYDDIAETH ? Cyfyngaf fy sylwadau i ddau sefydliad pwysig, sef y Colegau a'r Brifysgol. Ni ellir sôn am berthynas y Brifysgol â diwinyddiaeth heb dalu gwrogaeth unwaith eto i goffadwriaeth y Prifathro Thomas Rees a Syr Harry Reichel ; a'u hymdrech i sicrhau adran ddiwinyddol yn y Brifysgol, gan gychwyn gyda'r *Bangor School of Theology*. Erbyn heddiw, y mae gennym ein Cyfadran (*Faculty*) arbennig, sydd yn trefnu meysydd astudiaeth, ac yn gosod y safonau. Rhaid dweud ei bod yn bur gatholig ei dewis. Gwelaf for "Institutes" John Calfin ar raglen y B.D. eleni. (Na chyhoedder hyn yn Gath, ond Modernydd a gynnigiodd hynny !) Y mae cyfle ar yr un pryd i astudio Hanes Crefyddau a Chrefydd Gymharol, efrydiau a esgeuluswyd yn ddirfawr gan y Draddodiadaeth Newydd hyd yn hyn. Canlyniad y catholigrwydd hwn yw fod y gymysgfa ryfeddaf ym mhulpudau pob enwad heddiw ; Barthiaid a Thomistiaid, y modernydd a'r uniongred, yn gymysg ym mhob sect yn ddi-wahân, diolch i Brifysgol Cymru !

Ffaith amlwg arall yw dylanwad grymus athrawon yr Hebraeg. Cafodd iaith, hanes, a diwinyddiaeth yr Hen Destament le amlwg yn y Brifysgol er dyddiau'r Dr. T. Witton Davies. Yn ddiweddar, cawsom gyfraniadau dysgodron fel Theodore H. Robinson a H. H. Rowley ; ac y mae'r cyfraniadau hyn yn eiddo i'r byd, gan mai yn Saesneg yr ysgrifenwyd hwynt. Da gennym feddwl fod gennym

Gymry heddiw yn yr olyniaeth anrhydeddus hon. Credaf fod Prifysgol Cymru yn rhoddi mwy o le i'r Hebraeg na'r unrhyw Brifysgol arall ym Mhrydain.

Eithr ar wahân i gadeiriau yr Hebraeg, ychydig o ddarpariaeth ddiwinyddol a wneir gan y Brifysgol. Damwain, ffodus i Gymru, yw bod gennym *athronwyr* yn y Brifysgol sydd yn ymddiddori mewn diwinyddiaeth heddiw ; gwŷr fel H. D. Lewis, R. I. Aaron, a J. R. Jones, dynion yn gweld mai efydd yn seinio yw positifiaeth rhesymegol, ac yn troi at athroniaeth crefydd am ymwared. Ond ychydig o ddarpariaeth uniongyrchol a wna'r Brifysgol at efrydiau diwinyddol. Ni ofynnir yng nghwrs y "B.D." ond am *hanes* athrawiaethau. Nid oes ddysgu ar gyfundrefn o ddiwinyddiaeth ddogmatig o gwbl. Goddefwch atgof personol difyr, o ddyddiau Coleg. Cwrs diwinyddol yr ail flwyddyn ym Mangor ,a ' Gwili ' yn darlithio ar y Testament Newydd mewn ystafell yng Ngholeg y Brifysgol. Daeth un o'r myfyrwyr a'i gi i'r ddarlith ! "Take it out, man", meddai Gwili. "No *dog*-matics allowed in here ! " "No Dogmatics". Dros ugain mlynedd yn ddiweddarach, yr un yw'r sefyllfa. ' *No Dogmatics* '. Hwyrach mai diffyg arian yw'r achos. Er i Gomisiwn Haldene ei gwneud yn bosibl i sefydlu Cadair mewn Diwinyddiaeth yn y Brifysgol, nid yw'r gronfa angenrheidiol wrth law i droi'r freuddwyd yn ffaith. Rai blynyddoedd yn ôl, bu sôn am ddefnyddio'r arian a ddaeth i'r Brifysgol wedi dadwaddoli'r Eglwys yng Nghymru at y pwrpas. Ond cododd gwrthwynebiad ffyrnig. Oni ymladdodd y tadau dros ddadwaddoliad ? A beth oedd yr awgrym hwn ond gwaddoli crefydd o'r newydd yn y Brifysgol ? Ym mhle y mae tynnu gwahaniaeth rhwng diwinyddiaeth a chrefyddolder arbennig, rhwng crefydd a dogma ? Aeth yr awgrym i'r gwellt. Penderfynwyd gadael diwinyddiaeth ddogmatig, hynny yw, diwinyddiaeth ar erthyglau canolog y Ffydd, yn nwylo'r Colegau Diwinyddol enwadol.

(*c*) Y COLEGAU DIWINYDDOL.

Beth amdanynt ? Yn y dyddiau a fu, hwy yn anad unrhyw sefydliad oedd yn gyfrifol am ddiwinyddiaeth yng Nghymru. Erys rhyw wyth ohonynt ; dau gan yr Annibynwyr, dau gan y Bedyddwyr, dau gan yr Eglwys Esgobol, un gan y Methodistiaid Calfinaidd, ac un gan y Bwrdd Presbyteraidd. Y mae hefyd, wrth gwrs, sefydliadau eraill megis yn y Bala a Chaerfyrddin, yn is-wasanaethgar i'r rhai hyn. Os cywir ydoedd dyfarniad y diweddar John Morgan Jones a'r Dr. Gwilym Arthur Edwards yn 1924, fod yr wyth yn "fwy na digon", beth am heddiw ? Ar y maes cenhadol, cyfrinach llwyddiant ydyw uno adnoddau addysg ddiwinyddol ; ac fe deimlir mai dyma'r moddion priodol yng Nghymru hefyd heddiw. Y mae'n broblem gymhleth, ond bydd yn *rhaid* ei hwynebu cyn bo hir.

Fel y mae pethau, ni ellir disgwyl i'r Colegau Diwinyddol wneud cyfraniad arbennig i lenyddiaeth ddiwinyddol Cymru. Y mae'r galwadau di-rifedi ar yr athrawon oddi wrth yr eglwysi, ansicrwydd dyfodol yr academïau sydd dan eu gofal, a mân drefniadau'r sefydliadau hynny, crintachrwydd y gydnabyddiaeth a delir iddynt yn bersonol a'r grantiau prin at ofynion eu gwaith, yn difa eu hamdden ac yn lladd eu hegnïon. Ac yn sicr, ni ellir disgwyl i unrhyw bregethwr sydd ynghanol hwrli-bwrli y Weinidogaeth Sefydlog, ac fel rheol ymhell o gyrraedd llyfrgelloedd cyfaddas, fedru cynhyrchu unrhyw "magnum opus" diwinyddol. Ein hunig obaith hyd y gwelaf, am ysgol arbennig o Ddiwinyddiaeth yng Nghymru yw dwyn Diwinyddiaeth i berthynas agosach â'r Brifysgol. Gwn yn dda am beryglon yr awgrym ;—y perygl o greu pendefigaeth o ddiwinyddion yn y Colegau ; y perygl o ddidoli diwinyddiaeth academaidd oddi wrth fywyd ymarferol yr eglwysi. Ond nid oes obaith i Gymru ennill safbwynt a safle arbennig ac anrhydeddus yn y byd diwinyddol nes y ceir yr arbenigwyr hyn. Y mae'n ffaith, ac yn ffaith arwyddocaol, mai arbenigwyr o'r Brifysgol, yn Hebrewyr ac yn Athronwyr, dynion uwchlaw pryder a gofalon cyfundrefnol, a'r llyfryddiaeth gostus, angenrheidiol wrth law ganddynt, sydd yn cyfrannu helaethaf o bawb heddiw at lenyddiaeth ddiwinyddol yng Nghymru.

Ond rhaid terfynu. Pe bawn wedi dewis siarad ar *gyflwr* diwinyddiaeth yng Nghymru, yn hytrach na'r sefyllfa ddiwinyddol, gallwn fod wedi bod yn ddigalon o fyr ! Pe gofynnid a yw'r astudiaeth yn ffrwytho neu yn crino, yn dihuno neu'n dihoeni, gellid ateb am Gymru yng ngeiriau Gwenallt :

> Lluchiaist gyfrolau'r ddiwinyddiaeth ddofn
> I blith y cawdel yn y cwtsh-dan-stâr.

Onid gwell yr hen "odium theologicum" a'r dadleuon cecrus na'r difrawder a'r diffyg argyhoeddiad cyfoes, sydd yn galw ei hun yn oddefgarwch ? Tasg gyntaf diwinyddion heddiw yw creu argyhoeddiad o bwysigrwydd Diwinyddiaeth. Oblegid pan gyll Cymru ei chredo ddiwinyddol, gwanychir ei bywyd crefyddol, a chollir y safonau hynny a rydd iddi farn gytbwys ar bob peth arall.

Eithr na ddigalonwn oni ddarllenir ein llyfrau a'n hysgrifau diwinyddol. Teimlaf weithiau (fel Saunders Lewis) nad llenyddiaeth a fydd cyfrwng mawr mynegiant y dyfodol. Y mae darlledu yng Nghymru hyd yn hyn wedi gweithio ar y dyb fod Cymru yn wlad Gristionogol, a'i bod yn awyddus i barhau felly. Efallai mai hwn fydd prif gyfrwng diwinyddiaeth y dyfodol ; nid y Coleg na'r Wasg, ond y meicroffon a'r sgrîn ! Pwy a ŵyr ?

Newyddion yr Enwad

CYMANFA GANU UNDEB CERDDOROL DE-DDWYRAIN MORGANNWG.—Yr oedd yr adar yn canu a'r haul yn gwenu yng Ngardd Aberdâr fore Llun y Pasg a'r Hen Dŷ Cwrdd unwaith eto yn estyn ei groeso cynnes i'r Gymanfa. Cododd John Thomas yn fore fel arfer a brysiodd W. J. Jones gyda'r wawr o Gwmdâr at ei organ, ac o un i un daeth cynulleidfa dda ynghyd o bell ac agos, rhai o Lundain, eraill o Lambed ! Mr. Ellsworth Davies o Gefn Coed, bachgen ifanc diwyd gyda gwaith yr Ysgol Sul, oedd y llywydd a rhoes i ni grynodeb byr o hanes a dylanwad emynyddiaeth yr Undodiaid. Cawsom gân gan Alan England o Gefn Coed a datganiad o'r dôn "Melling" gan Alwyn Thomas o Drebanos. Golygfa hyfryd oedd gweld nifer helaeth o blant a phobl ifainc yn canu ar y llofft. Yr oedd gafael yr arweinydd yn sicr a'i eiriau'n fyr ac yn ddoeth ac fe gododd yr hwyl o ris i ris a llanwyd y seddau bron bob un cyn dechrau cyfarfod y prynhawn. Haydn Morgan oedd y llywydd y tro hwn ac fel y gellid disgwyl cawsom araith deilwng gan y chwilotwr dyfal hwn. Hanes y Gymanfa Ganu oedd ei faes ef a soniodd am ei chychwyn cynnar yn Aberdâr yn nyddiau Ieuan Gwyllt a bu'n olrhain ei thwf a'i dulliau wedi hynny. Cafwyd munudau dwys yn oedfa'r hwyr a'r arweinydd yn gorchymyn canu emyn ac anthem er cof am y ffyddloniaid a oedd wedi ' blaenu ' gan gyfeirio yn arbennig at y diweddar swyddogion, Tom Davies, Dewi Villa, J. O. James, Richmond Villa a'r diweddar Barch. Lewis Williams. Cauwyd yr egwyl atgofus hon gyda'r gweinidog a'r cadeirydd am y dydd yn adrodd telyneg hyfryd T.O.W. er cof am Lewis Williams. Atgofus hefyd oedd cywair araith y llywydd, Mrs. J. O. Davies, gweithraig dda yn y winllan a roes i ni gipolwg ar hwyl a helynt yr hen gymanfaoedd. Yna cafwyd adroddiad gwefreiddiol gan Mrs. Ceinwen Davies o Drebanos. A chan ei bod yn "amser i'r adar i ganu" chwedl Caniad Solomon, mentrodd y cadeirydd lunio tri phennill talcen slip i ddiolch i bawb—teyrnged y frân i'r eosiaid !
Diolch hefyd i bawb a'n cynorthwyodd a'r bobl hynny a deithiodd o bell ac agos i'n cefnogi. Un gair bach yng nghlust gwŷr Cymanfa Ceredigion—bydd raid i chwi "gwnnu'ch socs" neu ar ôl y byddwch chwi !

CYFRANIAD A STORI.—Yr oedd y Golygydd yn digwydd bod yn rhoi darlith mewn Capel Methodistiaid yn y Porth, Rhondds a Bedyddiwr o'r enw E.W. Thomas, (8, Cross Street) yn cadeirio. Syndod felly oedd clywed y gŵr hwn yn cyhoeddi ei fod yn darllen Yr Ymofynnydd ers dros hanner can mlynedd a'i glywed yn rhoi tystiolaeth gyhoeddus o werth ein cylchgrawn —(gobeithio fod hynny yn digwydd weithiau mewn capel Undodaidd !)— Ac nid gŵr y geiriau yn unig oedd Mr. Thomas ond cyn i'r Golygydd ymadael yr oedd yn rhoi papur punt yn ei law at ein cronfa. Diolch yn fawr iddo a chofion cynnes ato.

OL-NODIAD.—Gobeithiwn gyhoeddi adroddiad o weithgarwch ac areithiau'r Gymdeithasfa Gyffredinol yn ein rhifyn nesaf. Y mae gohebydd wedi addo hanes angladd y Parch. Lewis Williams i ni ond ni ddaeth i law eto.

Datganiad Byr o Ffydd yr Undodwr

Cynhwysir crefydd yn nau orchymyn mawr yr Iesu i garu Duw a charu dyn.

Anhepgorion y Ffydd Gristnogol yw Tadolaeth Duw, Brawdoliaeth Dyn, Arweinyddiaeth yr Iesu, Buddugoliaeth y Da, Teyrnas Dduw a'r Bywyd Tragwyddol.

Eithr er ein bod yn eu coledd, na thybier ein bod yn dal yr uchod fel credo bendant, nac yn mynnu iddynt unrhyw awdurdod terfynol fel datganiad o wirionedd crefyddol. Gan gredu fod ysbryd cul dogma a chredo yn rhwystr i ddatblygiad ac i neges yr Efengyl, ni cheisiwn wasgu unffurfiaeth ar neb, eithr parod ydym i groesawu i'n cymdeithas bawb sy'n gyfrannog â ni yn ein delfrydau ysbrydol a'n hamcanion ymarferol.

Wele rai o ddelfrydau'r Mudiad Undodaidd :

Undeb ym mhob peth anhepgor ; Rhyddid, mewn popeth amheus, a Chariad ym mhob peth.

* * *

Bywyd crefyddol nid credo yn rhwymyn yr undeb rhyngom.

* * *

Rhyddid i reswm a chydwybod dyn yn yr ymchwil am y Gwirionedd ; na phlyged i awdurdod, nac ofned dradodiad, mynned y gwir.

* * *

Cymdeithas fyd-eang rhwng dynion o bob cred a ffydd ar sail yr egwyddorion yma.

Gan garu Gwirionedd, gan geisio ysbryd yr Iesu, ymunwn er mwyn addoli Duw ac er gwasanaethu cyd-ddyn.

CREFYDD A GWERINIAETH YN HANES YR HEN DY CWRDD, ABERDAR

1751—1951

Golygydd—D. Jacob Davies.

A gawsoch chwi gopi o'r llyfr hwn ? Ynddo cewch hanes antur grefyddol Cwm Aberdâr oddi ar dyddiau cynnar Ymneilltuaeth. Yr Hên Dŷ Cwrdd oedd y fam eglwys yno a dyma lyfr a fydd yn apelio at bawb o bob enwad. Ceir 86 tud. ynddo ynglŷn â lluniau —a'r cyfan am swllt ! (Y pris gwreiddiol oedd *tri swllt*). Danfoner archebion at D. Jacob Davies, 2, Tudor Terrace, Aberdâr ac ychwaneger tair ceiniog at dreuliau'r post.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf, Argraffwyr &c., Gwasg Gomer, Llandysul